



RHWYDWAITH IECHYD
CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC HEALTH
NETWORK CYMRU



Gorffennaf 2020

Dlechyd Digidol

Croeso

Croeso i rifyn Gorffennaf o'r e-fwletin sydd yn canolbwyntio ar lechyd Digidol fis yma.

Yng ngoleuni pandemig Coronafeirws (COVID-19), mae sefydliadau ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector wedi gorfod newid nid yn unig i ddarparu ar gyfer gweithio gartref ond hefyd addasu eu ffordd o weithio i ddarparu gwasanaethau ar-lein.


Mae'r e-fwletin hwn yn edrych ar y ffordd y mae sefydliadau'n cefnogi iechyd a llesiant eu staff a'r ffordd y mae gwasanaethau yn addasu'n ddigidol i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau.

Cynhelir Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddim yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd ac mae'n rhan o Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ers dechrau'r pandemig, mae'r tîm wedi bod yn gweithio gartref ac wedi croesawu'r defnydd o lwyfannau digidol fel Skype a Microsoft Teams i gadw mewn cysylltiad. Mae gennym gyfarfodydd dal i fyny wythnosol sydd yn gyfle i weld sut mae pawb yn dod ymlaen o ran eu hiechyd a'u llesiant yn ogystal â chynllunio'r rhaglen waith ar gyfer yr ychydig fisoedd nesaf. Yn ddiweddar, rydym wedi cael sawl aelod newydd o'r tîm felly mae wedi bod yn bwysicach nag erioed i gyfathrebu'n rheolaidd fel bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys.

Mae bywgraffiad byr a llun o aelodau'r tîm ar gael ar ein [gwefan](#).

Oherwydd COVID-19 rydym wedi gohirio ein cyfres o ddigwyddiadau seminar a chynhadledd flynyddol. Fodd bynnag, rydym yn teimlo ei fod yn bwysig parhau i rannu a dysgu yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Fel rhan o lechyd Cyhoeddus Cymru, mae ein staff yn parhau i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno nifer o weminarau yn ymwneud â COVID-19 dros y mis diwethaf. Gellir gweld y rhain ar ein [tudalen Digwyddiadau Blaenorol](#). Dros y misoedd i ddod, byddwn yn cyflwyno mwy o weminarau felly cadwch lygad am fwy o fanylion. Yn y cyfamser, os oes unrhyw feysydd testun yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys yn ymwneud â COVID-19, cysylltwch â ni.

Hoffem glywed am unrhyw wybodaeth, astudiaethau achos neu awgrymiadau ychwanegol i'w rhannu gyda'r gymuned iechyd y cyhoedd ehangach yng Nghymru mewn e-fwletinau yn y dyfodol ac ar ein gwefan, felly cofiwch gysylltu â ni yn publichealth.network@wales.nhs.uk.



Cysylltu â Ni

Gallwch gysylltu â Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn amrywiaeth o ffyrdd

Drwy anfon e-bost
publichealth.network@wales.nhs.uk

Drwy'r post

Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
Llawr 5, Rhif 2 Capital Quarter,
Tyndall Stryd, Caerdydd, CF10 4BZ

Drwy ein sianeli cyfryngau
cymdeithasol
twitter
@PHNetworkCymru
facebook
Publichealthnetworkcymru

Cynnwys

Gwybodaeth Covid-19

RICC: Podlediad

RICC: Press Play

Ar y Grawnwin

RICC: Penawdau

RICC: Calendr

RICC: Pynciau

Rhifyn Nesaf

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac asiantaethau iechyd cyhoeddus eraill y DU i fonitro'r sefyllfa yn Tsieina ac ar draws y byd yn ofalus, a gweithredu ein hymateb wedi'i gynllunio, gyda mesurau yn eulle i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Mae'r canllawiau ar y mesurau sydd eu hangen mewn ymateb i Coronavirus yn newid yn gyflym. Mae'n werth gwirio'r [wybodaeth ddiweddaraf gan lechyd Cyhoeddus Cymru](#). Mae'r tudalennau'n cynnwys ystod eang o wybodaeth gynhwysfawr ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.

Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru - Coronavirus (COVID-19)

Gallwch ddod o hyd i ddolenni i ystod eang o ffynonellau ar dudalen Rhwydwaith Iechyd y Cyhoedd Cymru's Coronavirus (COVID-19) [yma](#).

Rydym yn croesawu adborth ar y detholiad hwn, ac awgrymiadau ar gyfer ffynonellau ychwanegol a allai fod o ddiddordeb i'r gymuned iechyd cyhoeddus yng Nghymru.

COVID-19
GWYBODAETH I
WEITHWYR PROFESIYNOL



Confederasiwn GIG Cymru

Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Nesta Lloyd-Jones

Mae pandemig Coronafeirws wedi gweld y GIG yng Nghymru yn trawsnewid ar gyflymder digynsail. Cafodd ysbytai dros dro eu sefydlu mewn wythnosau, tra bod apwyntiadau meddyg teulu wedi symud o'r feddygfa i'n cartrefi trwy ymgynghoriadau digidol a thros y ffôn.

Roedd y ddau drawsnewidiad yr un mor radical. Er ein bod yn ysu am weld y bygythiad i iechyd y cyhoedd yn gostegu ddigon i weld diwedd ysbytai dros dro, ym myd iechyd digidol, rydym wedi gallu symud yn gyflym tuag at ddyfodol mwy addawol.

Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (2018-2019) dywedodd 93% o'r bobl eu bod yn fodlon gyda'r gofal a dderbyniwyd gan eu meddyg teulu, ond dywedodd 40% o bobl eu bod wedi ei chael hi'n anodd gwneud apwyntiad cyfleus yn eu meddygfa.

Oherwydd pandemig Coronafeirws, daeth y GIG yng Nghymru â chynlluniau ymlaen i lansio gwasanaeth ymgynghoriad fideo i gydymffurfio â'r rheoliadau cadw pellter cymdeithasol.

Mae gan ymgynghoriadau digidol y potensial i gynyddu mynediad at ofal a lleihau'r anawsterau y mae pobl yn eu cael yn gwneud apwyntiad.

Er bod pandemig Coronafeirws, dros dro ac yn anochel, wedi lleihau gallu pobl i weld eu meddyg teulu wyneb yn wyneb, mae apwyntiadau rhithwir a thros y ffôn wedi galluogi pobl i barhau i weld eu meddyg trwy gydol y pandemig.

Yn ogystal â helpu pobl i gadw at y rheolau aros gartref, mae'r system newydd yn galluogi meddygon a nyrsys sydd yn hunanynysu, ond yn barod i weithio ac yn gallu gwneud hynny, i barhau i wasanaethu eu cymunedau.

Gall y trawsnewidiadau hyn ar draws y system hefyd roi darlun o'r ffordd y gallwn gyfuno apwyntiadau traddodiadol â rhai digidol yn y dyfodol.

Mae poblogaeth sy'n heneiddio gyda chyflyrau iechyd mwy cymhleth yn golygu y bydd y GIG, yn anochel, yn gorfod gweld mwy a mwy o gleifion yn yr hirdymor. Mae'n hanfodol felly ein bod yn gallu canfod modelau gofal cynaliadwy newydd.

Mae hyn yn cynnwys pethau sylfaenol fel gwella iechyd cyffredinol y cyhoedd trwy fwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd, ond mae hefyd yn ofynnol i'r GIG addasu.



Ac, nid mewn Gofal Sylfaenol yn unig y gallwn weld y buddion hyn. Mae mentrau'r celfyddydau ac iechyd, yn ogystal â chymorth iechyd meddwl, wedi cael eu cyflwyno'n rhithwir trwy gydol y cyfnod anodd hwn. Mae Span Arts, elusen celfyddydau cymunedol yn Arberth, Sir Benfro, wedi bod yn cyflwyno ystod amrywiol o ddigwyddiadau cerddoriaeth, theatre, comedi a llais o ansawdd uchel am dros 30 mlynedd, ynghyd ag ystod eang o brosiectau'r celfyddydau a llesiant, mewn ardal lle na fyddai gan bobl, fel arall, fynediad at y celfyddydau. Trwy gydol y pandemig, maent wedi symud yr holl raglenni ar-lein ac yn datblygu cyfres o brosiectau unigryw i gadw pobl yn canu.

Gall y math yma o weithgaredd weithredu fel mesur ataliol i atal pobl rhag teimlo'n unig neu wedi eu hynysu'n gymdeithasol ac atal yr angen am wasanaethau mwy aciwt fel adrannau damweiniau ac achosion brys. Os gallwn ddefnyddio technoleg ddigidol i gynyddu mynediad at ofal a gwella llesiant pobl, dylem wneud hynny.

Mae'r GIG yn ymwybodol o'r angen i ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion unigolion, sy'n golygu, wrth fynd ymlaen, bod yn rhaid i ni fanteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir i ni trwy'r defnydd o dechnoleg. Mae hefyd yn golygu y bydd angen i ni gyflwyno gofal yn draddodiadol ar gyfer y rheiny sydd angen y cymorth hwnnw, neu ar gyfer y rheiny nad ydynt yn alluog yn ddigidol.

Er bod pandemig Coronafeirws wedi rhoi gallu'r GIG, ein gweithlu a'n cymunedau ar brawf, mae llygedyn o obaith tuag at ddyfodol mwy cynhwysol a chadarnhaol i bawb yng Nghymru.

Darren Hughes yw Cyfarwyddwr Confederasiwn GIG Cymru, sydd yn cynrychioli holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru – Digidol a COVID-19



O'r cychwyn, roeddem yn gwybod bod gan dechnoleg rôl sylweddol yn ymateb GIG Cymru i COVID-19. Mae ganddi'r potensial i achub bywydau, galluogi gweithio o bell a darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i gyflwyno'r gofal gorau posibl.

Fe wnaethom weithredu'n gyflym a chyda llwyfan technegol Cymru gyfan eisoes yn ei le ac roedd gennym yr integreiddio a'r rhyngymarferoldeb sydd ei angen i gyflwyno gwasanaethau digidol a ffrydiau data newydd. Daeth yn amlwg yn gyflym fod profi, data, ymgynghoriadau rhithwir a gweithio o bell yn feysydd allweddol fyddai o gymorth i leddfu'r sefyllfa ar gyfer staff iechyd ac ar gyfer cleifion.

Felly, dyma lle gwnaethom ganolbwyntio ein sylw a gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd. Cyflymwyd y datblygiadau hynny fyddai'n gwneud gwahaniaeth.

Ac fe wnaethom ein gwefan <https://gggc.gig.cymru/> yn ganolbwynt ar gyfer gwybodaeth am wasanaethau digidol a'r cymorth digidol sydd ar gael i ddarparwyr gofal GIG Cymru.

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru – Digidol a COVID-19

Cymorth digidol i'r rheng flaen

Yr heriau cychwynnol oedd llywio ymateb GIG Cymru i COVID-19, a llwyddwyd i wneud hynny trwy ddatblygiad cyflym hyb data COVID-19 GIG Cymru. Mae hyn yn rhoi'r offer i wneuthurwyr penderfyniadau ddeall gallu a galw, gyda'r data sydd ar gael ar apwyntiadau meddyg teulu, gallu o ran gwelyau ac adrannau brys, profion cadarnhaol COVID-19 a galwadau i GIG 111.

Fe wnaethom hefyd greu'r rhestrau sydd eu hangen ar gyfer Llythyrau Gwarchod, gan weithio gyda methodoleg newydd i greu'r data hanfodol hwn o fewn 48 awr.

Mae mabwysiadu a chyflwyno Microsoft Office 365 a Teams ar draws GIG Cymru hefyd wedi cadw gwybodaeth yn llifo, wedi cefnogi cydweithredu a chyswllt.

Roedd profi digidol yn uchel ar ein rhestr o ddatblygiadau brys. Ychwanegodd ein timau technegol weithrediad profi COVID-19 newydd i Borth Clinigol Cymru (WCP) i'w ddefnyddio mewn Unedau Profi Cymunedol, gyda 95% o'r profion bellach yn cael eu hanfon yn electronig i labordai Cymru.

O fewn 40 diwrnod, cyflwynwyd system awtomataidd Cymru gyfan i helpu swyddogion i olrhain cysylltiadau i fonitro pobl a allai fod wedi bod yn agos at unigolyn â COVID-19.

Wrth i bethau ddatblygu, rydym yn gweithio'n agos gyda GIG Lloegr i integreiddio'r broses brofi o'r dechrau i'r diwedd. Mewn gofal sylfaenol, rhoddwyd mynediad o bell i feddygon teulu i'r bwrdd gwaith clinigol er mwyn iddynt allu gweithio unrhyw le, a galluogwyd gwasanaeth ebost gartref – gan alluogi staff y practis i gael mynediad at eu negeseuon ebost GIG o unrhyw leoliad.

Fe wnaethom hefyd roi Porth Clinigol Cymru ar y bwrdd gwaith er mwyn i feddygon teulu allu gweld gwybodaeth ysbyty cleifion fel crynodebau rhyddhau a llythyrau clinigol.

Mae cleifion bellach yn gallu defnyddio fideo-gynadledda ar gyfer ymgynghoriadau digyswllt o bell gyda'u meddyg teulu, nyrsys cymunedol a thimau iechyd meddwl.

Mae systemau newydd nid yn unig yn rhoi buddion cadw pellter cymdeithasol ond hefyd yn cyfrannu at drawsnewid gofal yn y tymor hwy.



Dywedodd Mark Allen, Fferyllydd Practis ym Meddygfa Gogledd Caerdydd: "Rydych wedi newid y ffordd y byddwn yn gweithio yn y dyfodol ac wedi rhoi'r gallu i ni weithio unrhyw le."



Mewn gofal eilaidd, cynyddwyd fideo-gynadledda ar gyfer clinigau cleifion allanol ac ychwanegwyd nodweddion newydd i Borth Clinigol Cymru i gynorthwyo ymgynghori rhithwir. Mae hyn yn rhoi mynediad i feddygon i'w rhestrau clinig a chofnodion cleifion ble bynnag y maent, a gallant gofnodi manylion yr ymgynghoriad a chyfleu'r penderfyniad.



Ac ychwanegwyd swyddogaeth adrodd ynghylch marwolaeth COVID-19 i Borth Clinigol Cymru fel nad yw meddygon bellach yn gorfod ffonio Iechyd Cyhoeddus Cymru.

We accelerated implementation of the Fuji Mobility image viewing software. Cynyddwyd y broses o roi meddalwedd gweld delweddau Fuji Mobility ar waith, sy'n golygu y gall meddygon gofal eilaidd yng Nghymru bellach weld delweddau ar draws ffiniau byrddau iechyd.

Lansiwyd ap symudol Porth Clinigol Cymru ar gyfer meddygon ysbytai i'w ddefnyddio ar ddyfeisiadau iOS ac Android. Mae'n cynnig gwybodaeth cleifion

wrth fynd ac wrth ochr y gwely, yn cynnwys hysbysiadau, gweld a cymeradwyo canlyniadau profion, ychwanegu a golygu nodiadau a thasgau ar gyfer cleifion.

Er mwyn darparu gallu ar gyfer gwasanaethau o bell a symudol eglur iawn, dyblwyd gallu lled band rhwydwaith GIG Cymru o 5gb, gyda'r gallu i gynyddu i 10gb fel y bo angen.

Gan symud ymlaen, byddwn yn datblygu ein llwyfan technegol presennol i wella galluoedd presennol digidol yn gyntaf, yn cynnwys datblygu adnodd data cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Mae gwasanaethau digidol a gyflwynwyd yn ystod y pandemig yma i aros.

Cymru Iach ar Waith

Mae Cymru Iach ar Waith (HWW) yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru a gyflwynir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rydym yn gweithio gyda chyflogwyr, unigolion ac ystod o weithwyr iechyd proffesiynol:

- Datblygu polisiau ac arferion sy'n cefnogi ac yn gwella iechyd a llesiant cyflogeion;
- Hwyluso rheolaeth absenoldeb salwch effeithiol i gefnogi dychwelyd i'r gwaith cefnogol ar gyfer cyflogeion yn dilyn cyfnod o salwch er mwyn atal pobl rhag syrthio allan o waith.

Dros flynyddoedd lawer, mae HWW wedi cynnal cynllun gwobrwyo sy'n darparu marc ansawdd cenedlaethol i gyflogwyr ar gyfer iechyd a llesiant gweithle. Mae'r gwobrau'n cefnogi cyflogeion ar draws Cymru i wella iechyd a llesiant eu staff, ymgysylltu a chyfathrebu gyda chyflogwyr yn fwy effeithiol, a helpu i gyflawni ystod o ganlyniadau busnes a sefydliadol. Gyda chymorth gan dîm o Gynghorwyr, mae fframwaith y wobwr yn helpu cyflogwyr i fynd i'r afael â materion fel lleihau costau absenoldeb salwch, gwella cynhyrchiant ac ymgysylltu staff.



Cymru Iach ar Waith

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, mae gwefan HWW yn cynnwys siop un stop o wybodaeth ac adnoddau i gyflogwyr trwy: <http://www.cymruiacharwaith.cymru.nhs.uk/hafan>

Gall fod yn anodd i gyflogwyr wybod ble i fynd am arweiniad felly mae gwefan HWW yn cyfeirio at y ffynonellau mwyaf priodol ar wefannau dibynadwy. Mae ganddo adrannau ar y canlynol:

- Gwirio symptomau, hunanynysu a phrofi
- Asesiadau risg a diogelu pobl agored i niwed
- Cyfyngu lledaeniad/ atal heintio a chyngor rheoli
- Gweithio'n ddiogel yn y cartref ac ar ben eich hun, ardystiad meddygol
- Tâl a cholli cyflog, grantiau busnes a chynlluniau ariannu
- Gweithio'n agos gyda phobl eraill, cerbydau a theithio i'r gwaith, cantinau ac ardaloedd gorffwys
- Gweithwyr hanfodol yn cynnwys profi a PPE

Mae gwefan HWW yn cynnwys y canllawiau sy'n benodol i'r sector hyd yn hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru:



- Swyddfeydd a chanolfannau cyswllt
- Manwerthu
- Cynhyrchu
- Adeiladu a gweithio yn yr awyr agored
- Trin gwallt a barbwr
- Chwaraeon a hamdden
- Busnesau coedwigaeth
- Busnesau anifeiliaid
- Diwydiannau creadigol
- Gweithfeydd pacio bwyd a chig
- Twristiaeth
- Cyrchfannau diwylliant a threftadaeth
- Labordai a chyfleusterau ymchwil

Mae gwefan HWW yn cael ei diweddarau'n rheolaidd gyda'r canllawiau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Mae gan y wefan hefyd ddolen i ymgyrch iechyd a llesiant newydd lechyd Cyhoeddus Cymru 'Sut wyt ti'n teimlo?' sy'n cynorthwyo pobl i ofalu am eu lles meddwl, corfforol a chymdeithasol, gyda chyfeirio at wasanaethau ac adnoddau perthnasol:

<https://icc.gig.cymru/pynciau/coronafeirws/sut-wyt-ti/>

Gan weithio gyda chyflogwyr sydd wedi derbyn y wobwr, mae'r canlynol yn rhoi cipolwg ar y gyfres o astudiaethau achos y mae HWW yn eu llunio i ddangos sut mae cyflogwyr mewn sectorau gwahanol ac o feintiau gwahanol wedi ymateb i'r pandemig a'r cyfyngiadau symud.

Prifysgol Abertawe: Addasu i'r normal newydd

Er gwaetha'r cyfyngiadau symud, cynhaliodd Abertawe ddigwyddiad Canmlwyddiant Llesiant ym mis Mai trwy ddulliau rhithwir yn cynnwys Yammer, tudalen cyfryngau cymdeithasol llesiant lle mae staff yn rhyngweithio er mwyn eu llesiant ac i gefnogi pobl eraill.

Roedd y digwyddiad yn cynnwys dros 50 o weithgareddau wedi eu harwain gan staff yn amrywio o diwtorialau ar dyfu llyisiau gartref i ioga, myfyrio, Zumba, côr staff, bolddawnsio, heriau beicio Zwift, clybiau darllen a chreffftio. Roedd presenoldeb da yn y sesiynau wnaeth gynorthwyo staff i ailgysylltu, rhoi cynnig ar rywbeth newydd neu parhau i fyw bywyd iach. Ers hynny, mae sawl sesiwn wedi cael ei hailadrodd. Roedd y digwyddiad yn weithgaredd ac yn seibiant oedd yn cael ei groesawu gan lawer o'r staff, yn arbennig staff rheng flaen sy'n cefnogi'r GIG yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe.

Mae gan y Brifysgol ap cynaliadwyedd a llesiant staff gyda mwy na 50% o'r staff (1654) wedi ymuno gyda'r ymgysylltu yn digwydd o dan thema "Stay SWell together".



Mae hwn yn ymgyrch o fewn rhaglen ymgysylltu cyflogeion SWell (oedd ymysg y goreuon yng Ngwobrau Cynaliadwyedd y Guardian 2017) sydd yn canolbwyntio ar gynnal a gwella iechyd corfforol a meddyliol yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae'r weithgareddau yn cynnwys rhestrau gwirio gweithio o bell, parhau i ddysgu yn ogystal â hybu ymddygiad cadarnhaol yn y cartref. Mae gweithgareddau eraill fel cadw mewn cysylltiad a sefydlu 'Caffi Rhithwir Staying SWell Together' yn canolbwyntio ar gysylltu staff a brwydro yn erbyn ynysu ac unigrwydd. Mae'r ymgyrch hefyd yn ymateb i awgrymiadau a gyflwynir gan staff fel 'Syniadau SWell'. Mae hyn yn bwydo i mewn i'r rhaglen ehangach gyda'r staff yn ennill pwyntiau a gwobrau am eu gweithredoedd

Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) Cymru (asiantaeth weithredol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder): Gweithio gartref a chefnogi iechyd a llesiant

Mae sut i gysylltu a chreu amgylchedd gynhwysol ar gyfer gwaith, p'un ai gartref neu ar y safle, wedi bod yn allweddol i iechyd a llesiant staff yn ystod y pandemig.

- Mae cylchlythyr HMCTS "Together whilst apart" yn gyfrwng cyfathrebu newydd ar gyfer gweithwyr cartref sydd yn canolbwyntio ar ynysu a rhannu gwybodaeth ddefnyddiol.
- Mae tudalen fewnryw Cadw'n Iach COVID-19 yn ehangu'r ffocws o iechyd i lesiant ac yn rhoi arweiniad a gwybodaeth am faterion ymarferol y mae pobl yn eu hwynebu wrth arwain tîm o bell o ran cadw'n iach yn gorfforol ac yn emosiynol.
- Gweminarau sy'n cael eu cynnal gyda chyfuniad o gynnwys proffesiynol a gwirfoddolwyr ar draws y sefydliad yn rhannu eu profiadau. Mae'r testunau yn cynnwys cadernid ac ynysu, cadw'n iach o bell, meddylgarwch, a galar a cholled.
- Ymestyn cymorth digidol i gynorthwyo'r rheiny sydd yn gweithio o bell gan eu galluogi i sefydlu cyfarfodydd a gwrandawriadau rhithwir.
- Mae Cynghreiriaid Iechyd Meddwl yn cynnig cymorth cyfrinachol rhithwir neu wyneb yn wyneb i unigolion, yn codi ymwybyddiaeth am iechyd meddwl ac yn gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol i bawb. Diolchiadau electronig yn cydnabod, trwy'r rhyngryd, y gwaith gwych sy'n cael ei wneud mewn cyfnod digynsail. Mae enghreifftiau yn cynnwys sefydlu hyfforddiant rhithwir ar draws y DU ac amlygu ymdrechion arwyr anhysbys sydd wedi cyfnewid eu diwrnodau i ffwrdd neu wedi dod i mewn ar fyr rybudd i lenwi swyddi.

Cymru Iach ar Waith

Wallich: Symud y rheng flaen ar-lein

Fel prif elusen digartrefedd a chysgu ar y stryd yng Nghymru gyda 400 o staff yn cefnogi pobl sydd yn profi digartrefedd, roedd yn rhaid i'r staff i gyd addasu er mwyn:

1. Cadw pobl yn ddiogel
 2. Arafu trosglwyddiadau yng nghymunedau'r Wallich
 3. Sicrhau staff a chleientiaid
 4. Cadw gwasanaethau hanfodol yn weithredol
- **Gweithio o bell** Cadwodd y Wallich 24 o wasanaethau hanfodol ar agor yn ystod y cyfyngiadau symud gan fod angen cymorth wyneb yn wyneb ar lawer o wasanaethau preswyl. Gweithiodd cyflogeion eraill o bell, yn cynnwys defnyddio technoleg i gael cyswllt rheolaidd gyda staff a defnyddwyr y gwasanaeth. Yn ogystal, cafodd 345 o breswylwyr eu cysylltu â'r rhyngwydd, oedd wedi eu hallgau yn ddigidol cyn hynny.
 - **Atebion cadw pellter cymdeithasol:** rhoddwyd arweiniad ar asesu risg ardaloedd a gweithdrefnau glanhau yn ofalus i'r holl wasanaethau. Cyflwynwyd PPE gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill er mwyn sicrhau dosbarthu.
 - **Gweithio hyblyg** Cafodd y staff dâl llawn yn gweithio gartref neu'n gwarchod heb golli unrhyw dâl salwch ar gontract os oedd angen hunanynysu. Cyhoeddodd yr elusen offer gweithio gartref i gynorthwyo pobl i addasu i ffordd wahanol o weithio. Darparwyd oriau gwaith hyblyg i alluogi rhieni i gyflwyno ysgol gartref, ynghyd ag adnoddau ar-lein i gefnogi defnyddwyr y gwasanaeth a'u plant. Yn ystod Wythnos Gofalwyr, cafodd polisïau yn cefnogi unigolion sy'n gofalu am aelodau o'r teulu ac ymgyrch 'Sut Wyt Ti'n Teimlo' PHW eu hyrwyddo.
 - **Iechyd a lles meddwl:** Fe wnaeth mynediad at lyfrgell adnoddau gynhwysfawr gefnogi lles meddwl yn cynnwys cyngor ar reoli iechyd meddwl unigol, canllawiau hunangymorth ac adnoddau ar-lein fel podlediadau a fideos ar feddylgarwch ac adweitheg a sesiynau grŵp byw.
 - **Lles corfforol:** Anogodd y Wallich staff i gymryd rhan mewn mentrau fel Mis Cenedlaethol Cerdded, her #TRY20, heriau helpa sborion a fideos o ymarferion cryfhau a chardio. Dechreuodd timau Pen-y-bont ar Ogwr her cerdded 10,000 o gamau'r dydd.

Gyrfa Cymru: Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu staff

- Mae Gyrfa Cymru yn defnyddio cymysgedd o ebost, fideo, e-fwletin, Microsoft Teams a Yammer (llwyfan mewnol y cyfryngau cymdeithasol) ar gyfer cyfathrebu. Mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi gwneud sawl fideo a rhyddhau e-fwletin wythnosol trwy gydol y cyfyngiadau symud i rannu negeseuon allweddol. Mae rheolwyr llinell wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'u timau trwy fideo-gynadledda.
- Mae gan bob swyddfa bron Hyrwyddwr Llesiant a Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Mae'r bobl hyn yn chwarae rôl bwysig yn dod â chydweithwyr ynghyd ar gyfer digwyddiadau sydd yn hybu iechyd a lles meddwl. Ers y cyfyngiadau symud, mae Hyrwyddwyr Llesiant wedi trefnu seibiau rhithwir am goffi, cwisiau, sesiynau ioga a meddylgarwch gan ddefnyddio Teams fel llwyfan.
- Mae Yammer yn galluogi cydweithwyr i gysylltu yn ymwneud â diddordebau a rennir gyda grwpiau Yammer ar gyfer coginio, garddio, crefftiau, clwb llyfrau, ffilm/teledu, pêl-droed a llawer mwy. Mae hyn wedi helpu pobl i wneud cysylltiadau gwaith, yn lle'r "sgyrsiau cegin" sydd yn digwydd fel arfer.
- Cafwyd cynnydd yn y diddordeb mewn hyfforddiant gyda'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn parhau i gael ei gynnal gan ddefnyddio llwyfannau digidol. Mae syniadau Blasu DPP hefyd yn cael eu rhannu trwy Yammer.
- Ers y cyfyngiadau symud, mae llawer o staff wedi dweud eu bod yn teimlo'n llawer agosach at eu cydweithwyr oherwydd y defnydd cynyddol o Teams Chat, cyfarfodydd rhithwir a gweithgareddau llesiant.

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Newid ar raddfa fawr tuag at weithio o bell mewn ymateb i COVID-19

Mewn cyfnod byr iawn o amser, mae effaith COVID-19 wedi arwain at drawsnewid y gweithle'n gyflym, gyda 95% o'n staff yn symud o'r swyddfa i weithio gartref, dros nos bron.

Fel sefydliad digidol, roedd gan ein staff i gyd liniaduron yr oeddent yn gallu eu defnyddio gartref, oedd yn golygu bod y pontio wedi bod yn ddidrafferth. Anogwyd y staff hefyd i fynd ag offer craidd gartref o'u desg yn y swyddfa, fel monitorau, bysellfyrddau, gwe-gamerâu a chlustffonau.

Gan fod polisïau gweithio'n hyblyg eisoes wedi eu sefydlu, ni chafodd y newidiadau a orfodwyd oherwydd COVID-19 lawer o effaith ar lif gwaith.

Ar unwaith, addaswyd ein cyfathrebiadau a'n strategaethau AD er mwyn parhau i ymgysylltu staff a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Gwnaeth y defnydd o Microsoft Teams, gyda fideo-gynadledda integredig a llwyfannau rhannu dogfennau gydweithredu'n hawdd a daeth yn norm yn gyflym iawn. Gwnaeth Teams hi'n hawdd hefyd i gysylltu ar lefel bersonol a chefnogi cyfathrebu anffurfiol trwy ystafell staff rithwir.



Cyflwynwyd briffiau staff ar-lein, a chyfres byrthefnosol o sgysiau fideo 10 munud byw i gysylltu â'r staff a'u hysbysu. Er bod staff wedi wynebu heriau newydd wrth weithio gartref, fel ymdopi â gofal plant tra bod ysgolion ar gau, mae'r canlyniad wedi bod yn gadarnhaol. Mae cynhyrchiant wedi gwella ac mae absenoldeb salwch wedi lleihau o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Yr adborth cychwynnol yw bod staff wedi ymateb yn dda i'r amgylchedd o bell newydd, gyda llawer yn mwynhau'r hyblygrwydd o weithio gartref a pheidio gorfod cymudo'n dyddiol.

Mae grŵp staff bellach wedi cael ei sefydlu i adolygu ffyrdd newydd o weithio i'r sefydliad wrth i ni gael adferiad o'r pandemig. Yn y cyfamser, bydd gweithio gartref yn parhau hyd at 30 Medi.

Fodd bynnag, gall gweithio gartref greu teimlad o ynysu. I helpu staff, mae gennym hyb ar-lein gyda mynediad at wybodaeth a syniadau am iechyd a llesiant, a chanllaw arfer gorau wrth weithio o bell.

Mae hyn wedi bod yn newid mawr yn y gweithle, ac yn hyn o beth rydym yn canolbwyntio ar gefnogi ein staff yn rhagweithiol trwy ddarparu adnoddau pen desg ffisegol a thrwy ddatblygu'r gweithlu a'n fframwaith llesiant.

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint – Mae teimlo'n iach yn arwain at weithio'n dda

Wrth i'r tîm yng Nghyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint addasu i gefnogi grwpiau gwirfoddol, cymunedol ac elusennol lleol o'u cartrefi, cafwyd ymdrech ymwybodol a phenderfynol i gadw mewn golwg bod teimlo'n iach a gweithio'n dda yn mynd law yn llaw.

Esboniodd y Prif Swyddog Ann Woods "Rydym yma i gefnogi, hybu a datblygu'r grwpiau a'r sefydliadau gwirfoddol, cymunedol ac elusennol sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl, lleoedd ac achosion yn ein gwlad. I raddau helaeth, rydym yn llwyddiannus yn hyn o beth, diolch i waith caled, gwybodaeth a phrofiad yr unigolion sydd yn ffurfio ein tîm bach o staff ac, ar adeg pan mae angen prosiectau a mentrau trydydd sector presennol a newydd yn fwy nag erioed, mae galluogi staff i deimlo'n iach ac, yn ei dro, gweithio'n dda, yn allweddol i gynyddu ein heffeithiolrwydd."

Yng nghyfnodau cynnar iawn gweithio gartref, cafodd y camau hyn eu blaenoriaethu:

- **Darparu cysondeb.** Er i sefydliadau weld newid mewn anghenion yn y cymunedau y maent yn eu cefnogi, rydym wedi parhau'n hyderus trwy gydol hynny, er mwyn cyflwyno'r gwasanaeth y mae trydydd sector Sir y Fflint yn ei ddisgwyl gennym. Nid oes angen i ni symud i ffrwd o'r pedair ffrwd waith sy'n gyffredin i bob Cyngor Gwirfoddol Sirol yng Nghymru, sy'n cael eu dwyn ynghyd o dan fantell Cymorth Trydydd Sector Cymru. Gyda'r potensial y byddai'r cyfyngiadau gafodd eu gosod gan y llywodraeth yn gwneud i staff deimlo eu bod yn symud i dir anghyfarwydd yn anochel ac allan o'u rheolaeth, fe wnaethom gynnig cysondeb, ac yn ei dro, rhywfaint o sicrwydd a sefydlogrwydd, trwy bwysleisio na fyddai'r hyn yr ydym yn ei gyflwyno yn newid.

- **Y rhodd o amser i addasu.** Er mwyn helpu'r cyfnod pontio, gwnaeth y tîm rheoli a'r Ymddiriedolwyr y penderfyniad i gynnig saib o 30 munud gyda thâl bob dydd yn ystod pedair wythnos gyntaf gweithio gartref. Cafodd hyn ei werthfawrogi'n fawr gan staff a ddefnyddiodd yr amser i adlewyrchu ac ystyried, helpu teulu, ffrindiau a chymdogion ac i helpu'r plant gyda'u gwaith ysgol. Y tu hwnt i'r cyfnod hwn o bedair wythnos, mae'r rhodd hon wedi parhau i roi trwy greu ymwybyddiaeth bod seibiau rheolaidd yn fuddiol, gan arwain at rai staff yn gweithio'n fwy hyblyg er mwyn gwneud amser iddynt eu hunain.

- **Asesu ardaloedd gwaith.** Pob aelod o'r tîm yn cwblhau asesiad i nodi unrhyw offer oedd ei angen i sicrhau bod ardaloedd gwaith yn gyfforddus. Archebwyd offer, i godi gliniaduron er enghraifft, a chawsant eu dosbarthu yn uniongyrchol i'r cartref, a gwnaed trefniadau i gadeiriau a monitorau gael eu cludo o'r swyddfa.
- **Gwella hunanhyder trwy alluogi'r tîm ymroddedig i barhau'n ffynhonnell wybodaeth ac arweiniad dibynadwy, er gwaetha'r cyfnod pan oedd pethau mor ansicr.** Briffiau dyddiol o leiaf gan y Prif Swyddog i'r holl staff a'r ymddiriedolwyr ar yr ymateb lleol ac argaeledd adnoddau i gefnogi'r trydydd sector.



- **Mabwysiadu meddalwedd oedd yn ein galluogi i gadw mewn cysylltiad â'n gilydd a'r sector, cael mynediad at ddogfennau hanfodol, ac annog staff i gymryd amser i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd.** Mae'r tîm yn cael boddhad wrth ymateb i anghenion a gofynion sefydliadau a grwpiau ac felly roedd yn bwysig ein bod yn parhau i wneud hyn trwy symud ein Trefnwyr Gwirfoddol a Rhwydweithiau Llesiant Gogledd Ddwyrain Cymru ar-lein.
- **Meithrin perthynas gyda Chymru Gynnes i atal staff rhag teimlo straen ac wedi eu llethu.** Cafwyd cynnydd o 700 y cant mewn galwadau i aelodau ein dau dîm sydd yn gweithio fel Rhagnodwyr Cymdeithasol. Fel rhan annatod o wasanaeth mynediad un man y wlad, mae'r staff yma'n derbyn galwadau gan breswylwyr wedi eu heffeithio fwyaf gan y pandemig a'r cyfyngiadau cysylltiedig.

Mae cyfarfodydd tîm rheolaidd, ar Zoom a Microsoft Teams, wedi cael eu defnyddio i ategu bod llesiant yn hollbwysig ac i sefydlu diwylliant o ofalu am ein hunain ac eraill, a chymryd amser i gynnal cysylltiadau tîm. Mae amser sy'n cael ei neilltuo i weithrediadau dyddiol wedi bod cyfwerth â'r amser sy'n cael ei dreulio ar bethau sy'n cefnogi gweithio gartref, er enghraifft, rhannu awgrymiadau a syniadau defnyddiol ynghylch yr hyn sydd wedi bod yn ddefnyddiol i bob unigolyn (mae'r rhain wedi amrywio o wrando ar bodlediadau a argymhellir i weithio lle mae golau naturiol), gweithgareddau hwyliog a nodiadau atgoffa parhaus i gael saib o'r sgrîn.

Rhwng cyfarfodydd, mae ymatebion o bell i "gwestiwn y dydd" wedi sicrhau bod staff yn chwerthin ac yn dysgu mwy am ei gilydd all ond fod yn beth da i ddeinameg y tîm nawr ac i'r dyfodol.

Mae'r gofyniad i hawlio oriau ychwanegol a weithiwyd o fewn pythefnos o'u cronni wedi cael ei gyflwyno ers i'r staff ddechrau gweithio gartref. Yn rhannol, mae'r newid polisi hwn wedi cael ei ddylunio i hybu llesiant ymhellach trwy warchod rhag gorweithio.

Gan siarad am gam arall sydd wedi bod yn ffafriol i lesiant staff, dywedodd Millie Boswell, Rheolwr Datblygu'r Trydydd Sector ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol "Rydym mewn sefyllfa dda i glywed am hyfforddiant ac adnoddau wedi eu dylunio i gefnogi staff yn eu gwaith trydydd sector, ond hefyd yn fwy cyffredinol, wrth weithio gartref. Mae'r staff i gyd wedi cael amser i fynychu cyrsiau, ond yr un mor bwysig, maent wedi cael llais ynghylch pa hyfforddiant yr ydym yn ei gynnig i staff a gwirfoddolwyr o'r grwpiau a'r sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi. Mae'r rhan hon yn y broses o wneud penderfyniadau wedi galluogi staff i ymateb i'r anghenion y maent wedi eu nodi yn ystod eu gwaith ac mae'r boddhad y mae hyn yn ei roi yn hwb gwirioneddol. Mae arian ychwanegol yr ydym wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn wedi cael ei ddefnyddio i ariannu cyrsiau hyfforddiant, er enghraifft, yn symud a chyflwyno gwasanaethau ar-lein, defnyddio PPE a rheoli heintiau, ac ymgysylltu timau gan ddefnyddio offer digidol."

Mae sesiynau goruchwyllo rheolaidd rhwng staff a'u rheolwyr llinell wedi parhau o bell, ac wedi cael eu hategu gan alwadau un i un gan reolwyr i sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd i godi unrhyw faterion y tu allan i gyfarfodydd tîm. Mae pob aelod o'r tîm wedi cael gwahoddiad i gwblhau "Cynllun Gweithredu Llesiant Unigol" cyn eu sesiwn oruchwyllo. Mae hyn yn rhoi cipolwg i reolwyr ar sbardunau yn y gweithle ar gyfer dirywiad mewn iechyd meddwl, a pha mor ddisgybledig yw unigolion ynghylch cael seibiau a sicrhau eu bod yn gyfforddus yn gorfforol yn eu man gwaith.

Gan sôn am y profiad o weithio gartref, dywedodd Mel Salisbury, aelod o'r tîm "Mae gwaith wedi newid o rywbeth yr oeddwn yn mynd iddo, i rywbeth sydd yn gorfod digwydd tra bod bywyd y cartref yn digwydd o'm hamgylch ac roedd yn anodd i ddechrau. Trwy gydnabod nad yw addasu i weithio gartref yn hawdd a chydabod yr angen i gynnig cymorth, mae fy nghyflogwr wedi helpu i leddfu'r pryderon a'r straen y gellir ei osgoi sydd yn gwneud canolbwyntio ar waith yn fwy anodd. Mae gweithio gyda chydweithwyr o bell wedi dod yn naturiol ac er fy mod yn edrych ymlaen at eu gweld, nid wyf yn teimlo'n llai agos atynt nag oeddwn o'r blaen."

Wrth i'r tîm yng Nghyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint addasu i gefnogi grwpiau gwirfoddol, cymunedol ac elusennol lleol o'u cartrefi, cafwyd ymdrech ymwybodol a phenderfynol i gadw mewn golwg bod teimlo'n iach a gweithio'n dda yn mynd law yn llaw.

Cymru Gynnes

Kathy Harris, Gweithiwr Cymunedol, Cymru Gynnes



Mae **Cymru Gynnes** yn Gwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) gyda chenhadaeth! Ein nod yw lleddfu tlodi tanwydd, gan gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant y bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw. Nid yw tlodi tanwydd yn dod ar ben ei hun; mae'r rheiny sy'n cael anhawster yn cadw'n gynnes yn agored i ystod o gyflyrau iechyd o ganlyniad i fyw mewn amodau oer, llaith, felly mae buddion pellgyrhaeddol i'n gwaith i'r bobl yr ydym yn gallu eu cynorthwyo.

Yng Nghymru, mae unrhyw gartref sydd yn gwario dros 10% o'i incwm i gynnal lefel gyfforddus o gynhesrwydd yn eu cartref yn cael eu diffinio fel rhais y'n dioddef 'tlodi tanwydd'. Yn ôl ffigurau diweddaraf y Llywodraeth (2019), mae cyfartaledd genedlaethol o ryw 12% o gartrefi Cymru yn byw mewn tlodi tanwydd. Un ffordd yr ydym yn gweithio i leihau'r ystadegyn hwn yw trwy ein '**Prosiect Cartrefi Iach Pobl Iach (HHHP)**'.

Nodwedd greiddiol **Prosiect HHHP**, a noddur gan Wales & West Utilities (WWU), yw cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth uniongyrchol pwrpasol, wedi ei deilwra i amgylchiadau pob unigolyn. Gall hyn amrywio o esbonio biliau ynni a chefnogi cyfnewid tariff i gyfeirio preswylwyr at sefydliadau fel Cyngor ar Bopeth, Age-Connect neu Thrive (Cymorth i Fenywod).

Rydym hefyd yn rhoi preswylwyr cymwys mewn cysylltiad â chymorth ymarferol ac ariannol sydd ar gael o ystod eang o sefydliadau allweddol yr ydym wedi meithrin perthynas waith gyda nhw (e.e. WWU, Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru (Cynllun Nyth Cartrefi Cynnes), Dŵr Cymru, Gofal a Thrwsio ac eraill), gan gynorthwyo gydag atgyfeirio a chynorthwyo'r preswylwr gyda'r broses.

Ers ei sefydlu yn 2017 mae **Prosiect HHHP** wedi ein galluogi i helpu 2132 o gartrefi, gan ddarparu gwerth £1,456,936 o arbedion a mesurau ar hyd a lled Cymru hyd yn hyn.

Cyn COVID-19

Yn dilyn cyswllt cychwynnol neu atgyfeiriadau, aeth Gweithwyr Cymunedol **Prosiect HHHP** i ymweld â phreswylwyr mewn ardaloedd wedi eu targedu ar draws Cymru i asesu anghenion cymorth a chymhwysedd cyn cymryd y camau gofynnol. Roedd hyn yn ffordd effeithiol o sefydlu cyswllt gweithredol, cadarn gyda'r rheiny oedd angen cymorth. Yna, ym mis Mawrth 2020, digwyddodd yr hyn nad oedd yn bosibl ei ddychmygu, a newidiodd popeth! Gwnaeth Covid-19 ymweliadau a chartrefi yn amhosibl a gweithio gartref oedd yr unig ddewis ymarferol. Roedd angen i ni addasu er mwyn parhau i gefnogi preswylwyr trwy'r cyfnod digynsail hwn.

Rydym eisoes yn gwneud defnydd o dechnoleg i gynorthwyo'r broses o gyflwyno'r prosiect. Roedd gennym systemau digidol yneulleer mwyn i dimau gyfathrebu, casglu data ac adrodd. Defnyddiodd ein Gweithwyr Cymunedol lechi a ffonau symudol i gynorthwyo'r ymweliadau cartref ac mae gennym borth diogel wedi ei sefydlu i dderbyn atgyfeiriadau personol yn ddiogel. Gan ein bod yn gweithio o bell, roeddem yn wynebu dwy her uniongyrchol.

I ddechrau, roedd angen ffordd ddiogel ond effeithiol arnom i gyrraedd preswylwyr. Y ffôn gyffredin ddaeth i'r adwy, ac yn ffodus, roeddem yn gallu parhau i wneud 'ymweliadau cartref' dros y ffôn. Er nad oeddent mor personol ag ymweliad cartref, cafodd ein Gweithwyr Cymunedol eu synnu ar yr ochr orau ynghylch pa mor effeithiol yr oedd hyn yn y rhan fwyaf o achosion. Cynigiwyd galwadau Zoom a sgysiau facetime i'r rheiny oedd eisieu cael y profiad wyneb yn wyneb, ac er ein bod yn gwerthfawrogi nad oedd hyn ar gael i bawb, roeddem yn gallu cynnig cymorth ynghylch sut i ddefnyddio'r dechnoleg ar gyfer y rheiny oedd yn meddu arno.

